# Tasg 1

**(Craidd, sbardun 2)**

1. Gorffennwch y brawddegau hyn:

   a. Mae dau bennill cyntaf y gerdd yn disgrifio ......................

   b. Mae dau bennill olaf y gerdd yn disgrifio ......................

2. Gwnewch restr o'r geiriau sy'n gysylltiedig â **ffasiwn**.

3. Pam mae'r geiriau *catwalk* a *photoshoots* yn y ddau bennill cyntaf mewn print *italig*?

   Pam mae'r gair **ni** yn llinell olaf yn gerdd mewn print **trwm**?

4. Chwiliwch am enghreifftiau o'r canlynol:

**cymhariaeth** (a **fel** b)
**ailadrodd** gair/geiriau
**cyflythreniad** (ailadrodd cytseiniaid)

Ydy'r rhain yn effeithiol? Pam? Pam lai?

5. Beth yw neges y gerdd, yn eich barn chi? Ydych chi'n cytuno â'r neges?

6. Edrychwch ar yr ansoddair **drudfawr** – mae dwy ran iddo – **drud** + **mawr** .

Beth sy'n digwydd i **mawr** pan fydd **drud** yn dod o'i flaen?

Gwnewch yr un peth gyda'r geiriau hyn a llenwi'r tabl:

| **Dwy ran** | **Un gair** | **Ystyr y gair** |
|---|---|---|
| pwys + mawr | | pwysig |
| gwerth + mawr | | yn werth llawer o arian |
| pen + coch | | â gwallt coch |
| brown + coch | | cymysgedd o frown a choch (*maroon)* |
| coes + coch | | â choesau coch, e.e. aderyn |
| pen + trwm | | â phen trwm, e.e. blodyn |

Dewiswch **dri** gair a'u rhoi nhw yn eich brawddegau eich hun.